Os cafwyd mwy o geisiadau mewn ysgol na'r lleoedd sydd ar gael, bydd y drefn flaenoriaeth ganlynol yn berthnasol:

1. Plant sydd yng ngofal yr Awdurdod Lleol (ALI), h.y. Plant sy'n Derbyn Gofal (PSDG) neu'r rhai a oedd yn derbyn gofal*.
2. Plant sy'n byw yn nalgylch penodol yr ysgol. Os bydd mwy o geisiadau na lleoedd, caiff y lleoedd eu dyrannu yn nhrefn pellter, gyda'r rhai sy'n byw agosaf at yr ysgol (y daith gerdded fyrraf) yn cael blaenoriaeth**.
3. Plant y mae eu brawd neu eu chwaer o oedran ysgol statudol yn mynd i'r ysgol ar adeg eu derbyn***.
4. Os bydd mwy o geisiadau na lleoedd, caiff y lleoedd eu dyrannu yn nhrefn pellter, gyda'r rhai sy'n byw agosaf at yr ysgol (y daith gerdded fyrraf) yn cael blaenoriaeth**.
5. Plant eraill y gwnaed cais am le drostynt nad yw meini prawf 1 i 3 uchod yn berthnasol iddynt. Os bydd mwy o geisiadau na lleoedd, caiff

y lleoedd eu dyrannu yn nhrefn pellter, gyda'r rhai sy'n byw agosaf at yr ysgol (y daith gerdded fyrraf) yn cael blaenoriaeth**.

*Plant a oedd yn derbyn gofal: plant a oedd yn derbyn gofal ond mae'r gofal wedi dod i ben oherwydd eu bod wedi cael eu mabwysiadu neu y gwnaed gorchymyn preswyl, neu orchymyn gwarcheidwaeth arbennig yn eu cylch yn syth ar ôl iddynt dderbyn gofal.

** Defnyddir y mesuriadau a gymerir o'r tu allan i fynedfa'r eiddo (tŷ neu fflat) i fynedfa swyddogol agosaf yr ysgol. Defnyddir rhaglen gyfrifiadur i fesur y pellter.

*** Diffinnir brawd neu chwaer fel plentyn naturiol neu blentyn sydd wedi'i fabwysiadu'n gyfreithlon gan y naill riant neu'r llall sy'n byw yn yr un cyfeiriad. Mewn unrhyw sefyllfa pan fydd un lle ar gael ac mae'r plant cymwys nesaf ar gyfer y lle hwnnw'n efeilliaid/tripledi, bydd yr AALI yn derbyn y ddau/tri phlentyn.

Sylwer bod gan ysgolion ddyletswydd i dderbyn plant â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig sydd wedi'u gosod yn yr ysgol gan yr ALI a chaiff y disgyblion hyn eu cyfrif tuag at y nifer a dderbynnir hyd at y Nifer Derbyn, oni bai eu bod yn cael eu gosod mewn Cyfleuster Addysgu Arbenigol â lleoedd cynlluniedig.

Penderfynir ar geisiadau i ysgolion a gynorthwyr yn wirfoddol trwy gyfeirio at y meini prawf derbyn a osodwyd gan y corff llywodraethu. Cyrff llywodraethu ysgolion a gynorthwyr yn wirfoddol sy'n gyfrifol am bennu eu trefniadau derbyn eu hunain.

Penderfynir ar geisiadau i drosglwyddo plant o un ysgol i'r llall ar adegau ar wahân i'r oed trosglwyddo arferol trwy ddefnyddio'r meini prawf derbyn uchod

(c) Gweithdrefnau Derbyn - Ysgolion Cymunedol

Gofynnir i rieni wneud cais drwy lythyr am le i'w plentyn yn ysgol y dalgylch neu ar gyfer lleoliad drwy ddewis ar ffurflen cais am dderbyn.

Bodlonir ceisiadau am le ar yr amod bod lleoedd ar gael. Os yw nifer y ceisiadau yn fwy na'r nifer o leoedd sydd ar gael, caiff lleoedd eu dyrannu'n unol â meini prawf derbyn yr ALI.

Ni fydd hawl awtomatig gan blant sy'n mynd i ddsbarth meithrin mewn ysgol ac sy'n byw y tu allan i'r dalgylch dderbyn addysg amser llawn yn yr un ysgol. Bydd rhaid i rieni wneud cais am le gyda'r ymgeiswyr eraill.

Bydd ceisiadau am gael eu derbyn i'r grŵp oedran perthnasol (h.y. grŵp oedran y caniateir derbyn y plant i'r ysgol fel arfer) a gyflwynir ar y dyddiad cau, sef dydd Gwener 4 Mawrth 2016, neu cyn hynny, yn cael eu prosesu ar y cyd, a dyrennir lleoedd yn unol â'r meini prawf derbyn uchod. Yn hyn o beth, nid oes unrhyw fantais i gyflwyno'r cais derbyn yn gynnar. Caiff ceisiadau a gyflwynir wedi'r dyddiad cau eu prosesu wrth gael eu derbyn.

Ni cheir penderfyniadau ar geisiadau ar sail meini prawf dewis sy'n cynnwys sefyll profion, gweld adroddiadau ysgol, neu gyfweid â disgyblion gyda neu heb eu rhieni at ddibenion asesu gallu neu dueddfryd.

Bydd rhieni sydd wedi cyflwyno cais erbyn 4 Mawrth 2016 yn cael gwybod ble y dynodwyd lle iddynt erbyn 23 Ebrill 2016.

Rhestrau Aros

Yn achos pob cais, os gwrthodir lle i blentyn mewn ysgol, caiff y plentyn ei roi ar y rhestr aros yn awtomatig. Caiff enwau disgyblion eu cadw ar y rhestr aros am y flwyddyn academaidd gyfan ac ni chaiff eu dileu oni bai bod rhiant yn cadarnhau'n ysgrifenedig nad yw'n dymuno i enw ei blentyn/blant gael ei gadw ar y rhestr aros mwyach. Os daw lle ar gael, caiff ei ddyrannu gan yr ALI yn unol â'r meini prawf derbyn.

Os gwrthodir lle i blentyn mewn ysgol, caiff y plentyn ei roi ar y rhestr aros a

Ni fydd rhaid i'r ALI gydymffurfio ag unrhyw ddewis a fynegwyd fel arall ond yn unol â'i drefniadau'n unig.

DS: Nid yw'r meini prawf derbyn yn berthnasol i ddisgyblion y mae gan yr ALI Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig ar eu cyfer, ond mae hawliau'r rhieni i fod yn rhan wrth leoli eu plant wedi'u hamddiffyn gan y gyfraith. Bydd yr ALI, mewn ymgynghoriad â rhieni ac ysgolion, yn penderfynu ym mha ysgol y bydd yr addysg yn cael ei darparu. Mae'r ALI yn cadw'r hawl i enwi ysgol nad yw'n ysgol y dalgylch.

Sylwer *Yn ystod y cyfnod hwn, mae'n bosib y bydd yr Awdurdod Lleol (ALI) yn cynnal ymgynghoriad er mwyn cynnig newidiadau i nifer o ddalgylchoedd.*

TREFNIADAU DERBYN 2016/2017 (Cynradd)

Lleoli Cychwynnol, Dewis Rhieni a Ceisiadau Throsglwyddo

Yr Awdurdod Addysg Lleol, yr AALI, yw'r awdurdod derbyn ar gyfer holl ysgolion cymunedol yr ardal.

Derbyn i Ysgolion Cynradd Cymunedol

Bydd pob plentyn sydd ar fin dechrau addysg amser llawn yn cael ei wahodd i wneud cais am le yn ysgol y dalgylch a gynhelir gan yr ALL.

Gall rhieni naill ai gwneud cais ar-lein neu drwy lythyr am le yn ysgol y dalgylch neu fynegi dewis am le mewn ysgol arall. Caniateir lleoliad drwy ddewis os na fydd gwneud hynny yn:

- peryglu darparu addysg effeithlon neu'r defnydd effeithlon o adnoddau, ac
- ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, yn anghyson â'r trefniadau derbyn a gytunwyd rhwng y Corff Llywodraethu a'r ALL.

Rhoddir y flaenoriaeth i'r rhieni hynny sy'n mynegi eu dewis ar-lein neu drwy lythyr am le mewn unrhyw ysgol.

(d) Cyfyngiadau Derbyn – Ysgolion Cymunedol

Mae'n rhaid i bob ysgol dderbyn hyd at ei Nifer Derbyn ym mlwyddyn y derbyn (h.y. Derbyn mewn ysgolion cynradd). Ym mlwyddyn y derbyn, gwrthodir lle i blentyn ar ôl cyrraedd y Nifer Derbyn. Os gwrthodir lle yn yr ysgol, mae'n rhaid rhoi hawl apelio i'r rhieni hynny.

Mae'r Nifer Derbyn yn berthnasol i bob grŵp blwyddyn.

(e) Meini Prawf Derbyn - Ysgolion Cymunedol

Os cafwyd mwy o geisiadau mewn ysgol na'r lleoedd sydd ar gael, bydd y drefn flaenoriaeth ganlynol yn berthnasol:

1. Plant sydd yng ngofal yr Awdurdod Lleol, h.y. Plant sy'n Derbyn Gofal (PSDG) neu'r rhai a oedd yn derbyn gofal*.
2. Plant sy'n byw yn nalgylch penodol yr ysgol. Os bydd mwy o geisiadau na lleoedd, caiff y lleoedd eu dyrannu yn nhrefn pellter, gyda'r rhai sy'n byw agosaf at yr ysgol (y daith gerdded fyrraf) yn cael blaenoriaeth**.
3. Plant y mae eu brawd neu eu chwaer o oedran ysgol statudol yn mynd i'r ysgol ar adeg eu derbyn.*** .Os bydd mwy o geisiadau na lleoedd, caiff y lleoedd eu dyrannu yn nhrefn pellter, gyda'r rhai sy'n

byw agosaf at yr ysgol (y daith gerdded fyrraf) yn cael blaenoriaeth**.

4. Plant eraill y gwnaed cais am le drostynt nad yw meini prawf 1 i 4 uchod yn berthnasol iddynt. Os bydd mwy o geisiadau na lleoedd, caiff y lleoedd eu dyrannu yn nhrefn pellter, gyda'r rhai sy'n byw agosaf at yr ysgol (y daith gerdded fyrraf) yn cael blaenoriaeth**

*Plant a oedd yn derbyn gofal: plant a oedd yn derbyn gofal ond mae'r gofal wedi dod i ben oherwydd eu bod wedi cael eu mabwysiadu neu y gwnaed gorchymyn preswyl, neu orchymyn gwarcheidwaeth arbennig yn eu cylch yn syth ar ôl iddynt dderbyn gofal.

**Defnyddir y mesuriadau a gymerir o'r tu allan i fynedfa'r eiddo (tŷ neu fflat) i fynedfa swyddogol agosaf yr ysgol. Defnyddir rhaglen gyfrifiadur i fesur y pellter.

***Diffinnir brawd neu chwaer fel plentyn naturiol neu blentyn sydd wedi'i fabwysiadu'n gyfreithlon gan y naill riant neu'r llall sy'n byw yn yr un cyfeiriad. Mewn unrhyw amgylchiadau pan fydd un lle ar gael, ac mae'r plant cymwys nesaf yn efeilliaid/tripledi, yna bydd yr AALI yn derbyn y ddau/pob plentyn.

Penderfynir ar geisiadau i drosglwyddo plant o un ysgol i'r llall ar adegau ar wahân i'r oed trosglwyddo arferol drwy ddefnyddio'r meini prawf derbyn uchod.

Ni fydd yr ALI yn darparu cludiant nac yn cyfrannu at gostau cludiant ar gyfer y plant sy'n cael eu derbyn o'r tu allan i ddalgylch penodol yr ysgol. Serch hynny, os yw grŵp blwyddyn ysgol y dalgylch yn llawn, darperir cludiant i'r ysgol agosaf y mae lle ynddi, os yw'r ysgol honno'n fwy na 2 filltir o'r cartref.

Plant â datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig

Nid yw'r meini prawf derbyn yn berthnasol i ddisgyblion y mae gan yr ALI ddatganiad o anghenion addysgol arbennig ar eu cyfer, ond mae hawliau'r rhieni i fod yn rhan o leoli eu plant wedi'u hamddiffyn gan y gyfraith. Bydd yr ALI, mewn ymgynghoriad â rhieni ac ysgolion, yn penderfynu ym mha ysgol y bydd yr addysg yn cael ei darparu. Mae'r ALI yn cadw'r hawl i enwi ysgol nad yw'n ysgol y dalgylch.

Sylwer bod gan ysgolion ddyletswydd i dderbyn plant â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig sydd wedi'u gosod yn yr ysgol gan yr AALI a chaiff y disgyblion hyn eu cyfrif tuag at y nifer a dderbynnir hyd at y Rhif Derbyn, oni bai eu bod yn cael eu gosod mewn Cyfleuster Addysgu Arbenigol â lleoedd cynlluniedig.

Ysgolion a Gynorthwyr yn Wirfoddol

Penderfynir ar geisiadau i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr drwy gyfeirio at y meini prawf derbyn a osodwyd gan y Corff Llywodraethu. (Cyrrff Llywodraethu Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr sy'n gyfrifol am bennu eu trefniadau derbyn hwy).

(f) **Gweithdrefnau Derbyn – Ysgolion Cymunedol**

Gofynnir i rieni wneud cais ar-lein neu drwy lythyr am le i'w plentyn yn ysgol y dalgylch neu ar gyfer lleoliad drwy ddewis ar ffurflen cais am dderbyn.

Rhoddir lle mewn ysgol os oes lle ar gael. Os ceir mwy o geisiadau na'r lleoedd sydd ar gael yn ôl y Rhif Derbyn cyhoeddedig, dyrennir y geisiadau yn ôl meini prawf derbyn yr AALI.

Ni fydd gan blant sy'n mynd i ddosbarth meithrin mewn ysgol hawl awtomatig i addysg amser llawn yn yr un ysgol. Bydd yn rhaid i rieni wneud cais am le gyda'r ymgeiswyr eraill.

Er bod yr ALI yn caniatáu i ddisgyblion ddechrau yn y Derbyn amser llawn ar ddechrau'r flwyddyn y byddant yn cyrraedd eu pen-blwydd yn bump oed, nid yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith i blentyn ddechrau yn yr ysgol tan ddechrau'r tymor wedi iddo gyrraedd pum mlwydd oed. Felly, os yw rhiant y plentyn am ohirio mynediad i'r dosbarth Derbyn tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn ysgol, mae'n rhaid dyrannu lle i'r plentyn hwnnw, ac ni chynigir y lle hwn i unrhyw blentyn arall. Sut bynnag, ni ellir gohirio mynediad ar ôl dechrau'r tymor wedi pen-blwydd y plentyn yn bum mlwydd oed, neu y tu hwnt i'r flwyddyn academaidd y derbyniwyd y cais gwreidiol ynddi.

Prosesir geisiadau derbyn i'r grŵp oedran perthnasol (h.y. y grŵp oedran y caiff plant eu derbyn i'r ysgol fel arfer) a gyflwynir ar, neu cyn y dyddiad cau gweinyddol, sef dydd Gwener 4 Mawrth, 2016 gyda'i gilydd, a dyrennir y lleoedd yn unol â'r meini prawf derbyn uchod. Yn hyn o beth, nid oes unrhyw fantais i gyflwyno'r cais derbyn yn gynnar. Caiff geisiadau a gyflwynir wedi'r dyddiad cau eu prosesu wrth gael eu derbyn.

Ni cheir penderfyniadau ar geisiadau ar sail meini prawf dewis sy'n cynnwys sefyll profion, gweld adroddiadau ysgol, neu gyfweld â disgyblion gyda neu heb eu rhieni at ddibenion asesu gallu neu dueddfryd. Bydd rhieni sydd wedi cyflwyno cais erbyn 4 Mawrth 2016 yn cael gwybod ble y dynodwyd lle iddynt erbyn 23 Ebrill 2016.

Yr Hawl i Apelio

Caiff rhieni eu hysbysu drwy lythyr ynglŷn ag a fu eu cais yn llwyddiannus ai peidio. Os gwrthodwyd eu cais, hysbysir rhieni bod ganddynt hawl i apelio i Banel Apêl Annibynnol. Os byddant yn dewis defnyddio'r hawl honno, rhaid cyflwyno'r apêl i'r Uned Ysgolion a Llywodraethwyr yn Neuadd y Ddinas erbyn dydd Gwener 20 Mai 2016. Caiff yr apêl ei ystyried gan Banel Apêl Annibynnol sy'n cynnwys 3 i 5 person, sef pobl lleyg a phobl â phrofiad o faes addysg.

Sylwer:

Oherwydd uchafswm statudol maint dosbarthiadau, sef 30, mae'r amgylchiadau lle gall apêl am le mewn dosbarth Babanod (Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2) lwyddo yn gyfyngedig iawn.

Rhestrau Aros

Os gwrthodir lle i blentyn mewn ysgol, caiff y plentyn ei roi ar y rhestr aros a chynigir cyfle i gwrdd â Phanel Apêl Annibynnol. Bydd enw disgybl yn parhau ar y rhestr aros am y flwyddyn academaidd gyfan a bydd yn cael ei ddileu os bydd apêl yn llwyddiannus neu os bydd rhiant yn cadarnhau'n ysgrifenedig nad yw bellach am i'w blentyn barhau ar y rhestr aros. Os bydd lle ar gael, caiff ei ddyrannu gan yr ALI yn unol â'r meini prawf derbyn.

Ni fydd dyletswydd ar yr ALI i gydymffurfio â'r dewis a fynegir oni bai ei fod yn unol â'i drefniadau.

Sylwer *Yn ystod y cyfnod hwn, mae'n bosib y bydd yr Awdurdod Lleol (ALI) yn cynnal ymgynghoriad er mwyn cynnig newidiadau i nifer o ddalgylchoedd.*

TREFNIADAU DERBYN 2016/2017 (Blynyddoedd Uwchradd 7-11)

Lleoli Cychwynnol, Dewis Rhieni a Cheisiadau Trosglwyddo

Yr Awdurdod Lleol, yr ALL, yw'r awdurdod derbyn ar gyfer holl ysgolion cymunedol yr ardal.

Gwahoddir pob plentyn sydd ar fin trosglwyddo o addysg gynradd i uwchradd i wneud cais am le yn ysgol y dalgylch a gynhelir gan yr ALL.

Gall rhieni wneud cais am le yn ysgol y dalgylch ar-lein neu'n ysgrifenedig neu fynegi dewis am le mewn ysgol arall. Caniateir lleoliad trwy ddewis os na fydd:

- yn peryglu darparu addysg effeithlon neu'r defnydd effeithlon o adnoddau, ac
- ar gyfer ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol, yn anghyson â'r trefniadau derbyn a gytunwyd rhwng y Corff Llywodraethu a'r ALL.

Rhoddir blaenoriaeth i'r rhieni sy'n mynegi dewis ar-lein neu'n ysgrifenedig am le mewn unrhyw ysgol dros y rhai sydd heb fynegi dewis.

(a) **Terfynau Derbyn – Ysgolion Cymunedol**

Pennir argaeledd lleoedd trwy gyfeirio at Nifer Derbyn yr ysgol. Mae'n rhaid i ysgolion dderbyn hyd at y Nifer Derbyn ym mlwyddyn y derbyn ac mae'n rhaid peidio â mynd dros y nifer hwn.

Mae'r Nifer Derbyn yn berthnasol i bob grŵp blwyddyn.

(b) **Meini Prawf Derbyn – Ysgolion Cymunedol**

Os cafwyd mwy o geisiadau ar gyfer ysgol na'r lleoedd sydd ar gael, bydd y drefn flaenoriaeth ganlynol yn berthnasol:

1. Plant sydd yng ngofal yr Awdurdod Lleol, h.y. Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG) neu'r rhai a oedd yn derbyn gofal*.
2. Plant sy'n byw yn nalgylch penodol yr ysgol. Os bydd mwy o geisiadau na lleoedd, caiff lleoedd eu dyrannu yn nhrefn pellter, gyda'r rhai sy'n byw agosaf at yr ysgol (y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael) yn cael blaenoriaeth**.
3. Plant y mae eu brawd neu eu chwaer o oedran ysgol statudol yn mynd i'r ysgol ar adeg eu derbyn***. Os bydd mwy o geisiadau na lleoedd, caiff lleoedd eu dyrannu yn nhrefn pellter, gyda'r rhai sy'n byw agosaf at yr ysgol (y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael) yn cael blaenoriaeth**.
4. Plant sy'n mynychu ysgol gynradd bartner ddynodedig ond sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol honno. Os bydd mwy o geisiadau na lleoedd, caiff y lleoedd eu dyrannu yn nhrefn pellter, gyda'r rhai sy'n byw agosaf at yr ysgol yn cael blaenoriaeth**.

5. Plant eraill nad yw meini prawf 1 i 4 uchod yn berthnasol iddynt. Os bydd mwy o geisiadau na lleoedd, caiff y lleoedd eu dyrannu yn nhrefn pellter, gyda'r rhai sy'n byw agosaf at yr ysgol yn cael blaenoriaeth**.

*Plant a oedd yn derbyn gofal: plant a oedd yn derbyn gofal ond mae'r gofal wedi dod i ben oherwydd eu bod wedi cael eu mabwysiadu neu y gwnaed gorchymyn preswyl, neu orchymyn gwarcheidwaeth arbennig yn eu cylch yn syth ar ôl iddynt dderbyn gofal.

**Mesurir y pellter o'r tu allan i fynedfa'r eiddo (tŷ neu fflat) i fynedfa swyddogol agosaf yr ysgol. Defnyddir rhaglen gyfrifiadur i fesur y pellter.

*** Diffinnir brawd neu chwaer fel plentyn naturiol neu blentyn sydd wedi'i fabwysiadu'n gyfreithlon gan y naill riant neu'r llall sy'n byw yn yr un cyfeiriad. Mewn sefyllfa pan fo un lle ar gael, ac mae'r plant cymwys nesaf yn efeilliaid/dripledi, bydd yr ALI yn derbyn y ddau/tri phlentyn.

Penderfynir ar geisiadau i drosglwyddo plant o un ysgol i'r llall ar adegau heblaw am yr oedran trosglwyddo arferol trwy ddefnyddio'r meini prawf derbyn uchod.

Ni fydd yr ALI yn darparu cludiant nac yn cyfrannu at gostau cludiant ar gyfer plant sy'n cael eu derbyn o'r tu allan i ddalgyrch penodol yr ysgol. Serch hynny, os yw grŵp blwyddyn ysgol y dalgyrch yn llawn, darperir cludiant i'r ysgol agosaf y mae lle ynddi, os yw'r ysgol yn fwy na 3 milltir o bellter cerdded o'r cartref.

Plant â datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig

Nid yw'r meini prawf derbyn yn berthnasol i ddisgyblion y mae gan yr ALI ddatganiad o anghenion addysgol arbennig ar eu cyfer, ond mae hawliau'r rhieni i fod yn rhan o leoli eu plant wedi'u hamddiffyn gan y gyfraith. Bydd yr ALI, mewn ymgynghoriad â rhieni ac ysgolion, yn penderfynu ym mha ysgol y bydd yr addysg yn cael ei darparu. Mae'r ALI yn cadw'r hawl i enwi ysgol nad yw'n ysgol y dalgyrch.

Mae gan ysgolion ddyletswydd i dderbyn plant â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig sydd wedi'u rhoi mewn ysgol gan yr ALI a chaiff y disgyblion hyn eu cyfrif tuag at y nifer a dderbynnir hyd at y Nifer Derbyn, oni bai eu bod yn cael eu rhoi mewn Cyfleuster Addysgu Arbenigol â lleoedd cynlluniedig.

Ysgolion a Gynorthwyir yn Wirfoddol

Penderfynir ar geisiadau i ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol trwy gyfeirio at y meini prawf derbyn a bennwyd gan y Corff Llywodraethu.

(c) Trefniadau Derbyn – Ysgolion Cymunedol

Gofynnir i rieni wneud cais ar-lein neu'n ysgrifenedig am le i'w plentyn yn ysgol y dalgylch neu ar gyfer lleoliad arall trwy ddewis ar ffurflen cais am dderbyn.

Ar gyfer trosglwyddo ar adegau eraill yn ystod y flwyddyn ysgol, mae'n rhaid llenwi ffurflen gais a'i dychwelyd i'r Uned Ysgolion a Llywodraethwyr yn y Ganolfan Ddinesig.

Rhoddir lle mewn ysgol os oes lle ar gael fel a bennir gan y Nifer Derbyn cyhoeddedig.

Lle mae'r ceisiadau am leoedd yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, dyrennir y lleoedd yn ôl meini prawf derbyn yr ALI.

Bydd ceisiadau am leoedd yn y grŵp oedran perthnasol (h.y. y grŵp oedran y caiff plant eu rhoi ynddo yn yr ysgol fel arfer) a gyflwynir ar neu cyn y dyddiad cau gweinyddol, sef dydd Gwener 27 Tachwedd 2015, yn cael eu prosesu gyda'i gilydd. Yn hyn o beth, nid oes unrhyw fantais i gyflwyno'r cais yn gynnar. Bydd ceisiadau a gyflwynir wedi'r dyddiad cau'n cael eu prosesu ar ôl eu derbyn.

Ni cheir penderfyniadau ar geisiadau ar sail meini prawf dewis sy'n cynnwys sefyll profion, gweld adroddiadau ysgol, neu gyfweld â disgyblion gyda neu heb eu rhieni at ddibenion asesu gallu neu dueddfryd.

Ni fydd dyletswydd ar yr ALI i gydymffurfio â'r dewis a fynegir oni bai ei fod yn unol â'i drefniadau. Bydd rhieni sydd wedi cyflwyno cais erbyn 27 Tachwedd 2015 yn cael gwybod ble y dynodwyd lle iddynt erbyn 1 Mawrth 2016.

Yr Hawl i Apelio

Caiff rhieni eu hysbysu trwy lythyr a fu eu cais yn llwyddiannus. Os gwrthodwyd eu cais, hysbysir rhieni bod ganddynt hawl i apelio i Banel Apêl Annibynnol. Os byddant yn dewis arfer yr hawl honno, mae'n rhaid cyflwyno'r apêl i'r Uned Ysgolion a Llywodraethwyr yn y Ganolfan Ddinesig erbyn dydd Llun 1 Ebrill 2016. Caiff yr apêl ei ystyried gan Banel Apêl Annibynnol â rhwng 3 a 5 person, sef pobl leyg a phobl â phrofiad o faes addysg.

Rhestrau Aros

Os gwrthodir lle i blentyn mewn ysgol, caiff y plentyn ei roi ar y rhestr aros a chynigir cyfle i gwrdd â Phanel Apêl Annibynnol. Bydd enw disgybl yn parhau ar y rhestr aros am y flwyddyn academaidd gyfan a bydd yn cael ei ddileu os bydd apêl yn llwyddiannus neu os bydd rhiant yn cadarnhau'n ysgrifenedig nad yw bellach am i'w blentyn barhau ar y rhestr aros. Os bydd lle ar gael, caiff ei ddyrannu gan yr ALI yn unol â'r meini prawf derbyn.

Ni fydd dyletswydd ar yr ALI i gydymffurfio â'r dewis a fynegir oni bai ei fod yn unol â'i drefniadau.

Sylwer *Yn ystod y cyfnod hwn, mae'n bosib y bydd yr Awdurdod Lleol (ALI) yn cynnal ymgynghoriad er mwyn cynnig newidiadau i nifer o ddalgylchoedd.*

Derbyniadau i'r Chweched Dosbarth Meini Prawf Mynediad

Dyddiad Cau ar gyfer Derbyn Ceisiadau

Gall ymgeiswyr wneud cais am le mewn chweched dosbarth yn un o ysgolion Abertawe yn nhymor y gwanwyn ar gyfer y mis Medi canlynol. Y dyddiadau cau ar gyfer derbyn ceisiadau fydd **DYDDIAD I'W ROI YMA GAN YR YSGOLION.**

Cynnig Dros Dro

Cynigir lle dros dro i ymgeiswyr. Bydd y lle dros dro hwn yn amodol ar gyflawni cymwysterau mynediad penodol fel a gyhoeddir gan bob ysgol unigol. Dylid cysylltu â'r ysgolion ynglŷn â'u cymwysterau mynediad penodol.

Canlyniadau TGAU/Cyferwerth

Pan gyhoeddir graddau TGAU, sef y trydydd dydd lau ym mis Awst fel arfer, bydd angen i ddisgyblion unigol gysylltu â'r ysgol o'i ddewis i gadarnhau graddau TGAU neu ganlyniadau arholiad cyferwerth.

Dewis o Bynciau

Bydd ymgeiswyr sydd wedi cyflawni graddau boddhaol mewn arholiadau TGAU neu gyferwerth yn cael cynnig pendant o le yn y chweched dosbarth yn yr ysgol o'u dewis os bydd lleoedd ar gael. Fodd bynnag, dylid nodi y gallai fod yn amhosib astudio pob un o'r pynciau a ddewiswyd yn yr ysgol a ddewiswyd. Gallai fod angen i fyfyrwyr gysylltu â chweched dosbarth mewn ysgol arall i astudio rhai pynciau o'u dewis.

Mae'n bosib y bydd myfyrwyr sydd wedi cyflawni graddau boddhaol mewn arholiadau TGAU neu gyferwerth ond nad ydynt yn gallu astudio'r holl bynciau o'u dewis yn yr ysgol o'u dewis yn cael cynnig dewis arall o'r pynciau sy'n cael eu haddysgu yn y lleoliad hwnnw. Neu gall y myfyrwyr hyn geisio lle mewn lleoliad arall, h.y. chweched dosbarth mewn ysgol arall yn Abertawe neu yng Ngholeg Gŵyr.

Ni fydd gofyn i ymgeiswyr gael cyfweiliad mynediad.

Terfynau Mynediad – Chweched Dosbarth

Gall pob chweched dosbarth mewn ysgol dderbyn hyd at eu Nifer Derbyn ar yr amod bod y myfyrwyr yn cyflawni gofynion mynediad yr ysgol (sydd ar gael gan bob ysgol unigol) yn y flwyddyn fynediad h.y. Blwyddyn 12 yn y chweched dosbarth. Byddai'n dderbyniol mynd y tu hwnt i'r Nifer Derbyn os nad oedd modd bodloni'r galw am y cyrsiau sydd ar gael. Mae'n rhaid rhoi hawl apelio i rieni a disgyblion y mae eu cais am le yn chweched dosbarth yr ysgol yn cael ei wrthod.

Trefniadau Derbyn

Rhoddir y cyfrifoldeb am y trefniadau derbyn ar gyfer blynyddoedd 12 a 13 mewn ysgolion cymunedol a gynhelir i'r sefydliadau'n uniongyrchol. Gellir gofyn am fanylion trefniadau derbyn ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol yn uniongyrchol gan y sefydliadau perthnasol a bydd y rhain yn rhan o'u polisiau derbyn.

Rhestr Aros

Os bydd gorysgrifio am leoedd mewn chweched dosbarth ac ni all yr ysgol fodloni'r galw am gyrsiau, caiff rhestr aros ei chynnal. Bydd ymgeiswyr sydd wedi bodloni'r meini prawf mynediad (gweler uchod) ond y mae eu cais am le wedi cael ei wrthod oherwydd prinder lle yn cael cyfle i roi eu henwau ar restr aros. Os daw lle/oedd ar gael, bydd ymgeiswyr y mae eu henwau ar y rhestr aros yn cael cynnig lle yn unol â'r meini prawf mynediad (gweler isod).

Meini Prawf Mynediad

I ddisgyblion sy'n cyflawni'r cymwysterau mynediad penodol pan fo mwy o geisiadau wedi cael eu derbyn ar gyfer unrhyw chweched dosbarth na'r lleoedd sydd ar gael, caiff y drefn flaenoriaeth ganlynol ei dilyn:

1. Disgyblion sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol (PDG) neu'r rhai a oedd yn derbyn gofal*.
2. Disgyblion sy'n byw o fewn dalgylch diffiniedig yr ysgol. Os bydd mwy o geisiadau na lleoedd, caiff y lleoedd eu dyrannu yn ôl pellter, gyda'r rhai sy'n byw agosaf i'r ysgol (y daith gerdded fyrraf) yn cael blaenoriaeth.**
3. Disgyblion y mae ganddynt frawd neu chwaer o oedran ysgol statudol *** sy'n mynd i'r ysgol adeg eu derbyn****. Os bydd mwy o geisiadau na lleoedd, caiff y lleoedd eu dyrannu yn ôl pellter, gyda'r rhai sy'n byw agosaf i'r ysgol (y daith gerdded fyrraf) yn cael blaenoriaeth **
4. Disgyblion a aeth i'r ysgol ym Mlwyddyn 11 ond sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol honno. Os bydd mwy o geisiadau na lleoedd, caiff y lleoedd eu dyrannu yn ôl pellter, gyda'r rhai sy'n byw agosaf i'r ysgol (y daith gerdded fyrraf) yn cael blaenoriaeth.**
5. Disgyblion eraill y gwnaed cais am le drostynt nad yw meini prawf 1 i 4 uchod yn berthnasol iddynt. Os bydd mwy o geisiadau na lleoedd, caiff y lleoedd eu dyrannu yn ôl pellter, gyda'r rhai sy'n byw agosaf i'r ysgol (y daith gerdded fyrraf) yn cael blaenoriaeth.**

*Plant a oedd yn derbyn gofal: plant a oedd yn derbyn gofal ond mae'r gofal wedi dod i ben oherwydd eu bod wedi cael eu mabwysiadu neu y gwnaed gorchymyn preswyl, neu orchymyn gwarcheidwaeth arbennig yn eu cylch yn syth ar ôl iddynt dderbyn gofal.

**Mesurir pob llwybr gan gyfrifiadur gan ystyried y pellter o'r cartref i'r ysgol ar hyd y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael. Cymerir y mesuriadau o'r tu allan i fynedfa'r cartref (tŷ neu fflat) i fynedfa swyddogol agosaf yr ysgol.

***Diffinnir oedran ysgol statudol fel disgyblion sydd rhwng 5 ac 16 oed h.y. disgyblion mewn unrhyw grŵp blwyddyn rhwng ac yn cynnwys y dosbarth Derbyn a Blwyddyn 11.

****Diffinnir brawd neu chwaer fel plentyn naturiol neu blentyn sydd wedi'i fabwysiadu'n gyfreithlon gan y naill riant neu'r llall sy'n byw yn yr un cyfeiriad. Mewn unrhyw sefyllfa pan fydd un lle ar gael ac mae'r disgyblion cymwys nesaf ar gyfer y lle hwnnw'n efeilliaid/tripledi, bydd yr AALI yn derbyn y ddau/tri phlentyn.

SYLWER: Gall nifer bach o ddisgyblion â datganiadau AAA drosglwyddo i chweched dosbarthiadau mewn ysgolion yn Abertawe. Gwneir y penderfyniad ar drosglwyddo gan yr awdurdod lleol mewn ymgynghoriad â'r ysgol berthnasol.



Education Department / Adran Addysg

**AMSERLEN DIGWYDDIADAU AR GYFER TREFNIADAU DERBYN
2016/2017
YSGOLION CYNRADD**

5 Ionawr 2015	Rhoi'r trefniadau derbyn i ysgolion ar gyfer ymgynghori
4 Chwefror 2015	Dychwelyd ymatebion i'r ALI
5 Chwefror – 6 Chwefror 2015	Cyfnod i ddatrys ymholiadau
24 Chwefror 2015	Adroddiad ar yr ymgynghori i Briffio Corfforaethol
17 Mawrth 2015	Adroddiad am yr ymgynghori i'r Cabinet
31 Mawrth 2015	Y Cyngor yn pennu'r Trefniadau Derbyn
14 Medi – 25 Medi 2015	Dosbarthu "Gwybodaeth i Rieni" i'r ysgolion"
25 Medi 2015	Ysgolion yn dosbarthu llyfrynau "Gwybodaeth i Rieni" i rieni
11 Ionawr 2016	Gwahoddir rhieni i gyflwyno cais am le yn yr Ysgol
11 Ionawr 2016 – 4 Mawrth 2016	Cyfnod o 8 wythnos i rieni gyflwyno eu ceisiadau derbyn
4 Mawrth 2016	Y dyddiad olaf i rieni ddychwelyd ffurflenni at yr Uned Ysgolion a Llywodraethwyr
7 Mawrth 2016 – 21 Ebrill 2016	ALI yn prosesu'r ceisiadau
23 Ebrill 2016	Yr ALI yn hysbysu'r ymgeiswyr
GWYLIAU'R PASG 25 Mawrth – 8 Ebrill 2016	
20 Mai 2016	Dyddiad olaf i rieni gyflwyno apêl



Education Department / Adran Addysg

**AMSERLEN DIGWYDDIADAU AR GYFER TREFNIADAU DERBYN
2016/2017
YSGOLION UWCHRADD (Blynyddoedd 7-11)**

5 Ionawr 2015	Rhoi'r trefniadau derbyn i ysgolion ar gyfer ymgynghori
4 Chwefror 2015	Dychwelyd ymatebion i'r ALI
5 Chwefror – 6 Chwefror 2015	Cyfnod i ddatrys ymholiadau
24 Chwefror 2015	Adroddiad ar yr ymgynghori i Briffio Corfforaethol
17 Mawrth 2015	Adroddiad ar yr Ymgynghori i'r Cabinet.
31 Mawrth 2015	Y Cyngor yn pennu Trefniadau Derbyn
14 Medi – 25 Medi 2015	Dosbarthu "Gwybodaeth i Rieni" i'r ysgolion
25 Medi 2015	Ysgolion yn dosbarthu llyfrynnau "Gwybodaeth i Rieni" i rieni.
28 Medi 2015	Gwahoddir rhieni i gyflwyno cais am le yn yr ysgol.
28 Medi – 27 Tachwedd 2015	Cyfnod 8 wythnos i rieni gyflwyno eu ceisiadau derbyn.
27 Tachwedd 2015	Y dyddiad olaf i rieni ddychwelyd ffurflenni at yr Uned Ysgolion a Llywodraethwyr
1 Mawrth 2016	Hysbysu ymgeiswyr.
GWYLIAU HANNER TYMOR 15 – 19 Chwefror 2016	
4 Ebrill 2016	Dyddiad olaf i rieni gyflwyno apêl.

**DINAS A SIR ABERTAWE
YSGOLION GYNRADD**

**NIFER DERBYN
2016/2017**

Birchgrove Primary	60
Bishopston Primary	38
Blaenymaes Primary	36
Brynhyfryd Primary	60
Brynmill Primary	45
Burlais Primary	75
Cadle Primary	51
Casllwchwr Primary	30
Christchurch Ch. in Wales	13
Cila Primary	16
Clase Primary	36
Clwyd Primary	37
Clydach Primary	39
Craigcefnparc Primary	15
Craigfelen Primary	24
Crwys Primary	26
Cwm Glas Primary	40
Cwmrhydyceirw Primary	60
Danygraig Primary	40
Dunvant Primary	46
Gendros Primary	43
Glais Primary	15
Glyncollen Primary	30
Gors Community	44
Gorseinon Primary	49
Gowerton Primary	45
Grange Primary	30
Gwyrosydd Primary	58
Hafod Primary	30
Hendrefoilan Primary	30
Knelston Primary	19
Llangyfelach Primary	30
Llanrhidian Primary	19
Mayals Primary	30
Morrison Primary	26
Newton Primary	30
Oystermouth Primary	30
Parkland Primary	60
Pen y Fro Primary	27

Penclawdd Primary	29
Pengelli Primary	11
Penllergaer Primary	45
Pennard Primary	30
Pentrechwyth Primary	19
Pentre'r Graig Primary	53
Penyrheol Primary	35
Plasmarl Primary	26
Pontarddulais Primary	60
Pontlliw Primary	26
Pontybrenin Primary	45
Portmead Primary	34
Sea View Community Primary	29
Sketty Primary	60
St. David's Primary	30
St. Helen's Primary	29
St. Illtyd's Primary	30
St. Joseph's Cathedral Primary	60
St. Joseph's Primary (Clydach)	30
St. Thomas' Primary	51
Talycopa Primary	28
Terrace Road Primary	44
Townhill Primary	60
Trallwn Primary	35
Tre Uchaf Primary	29
Waun Wen Primary	28
Waunarlwydd Primary	41
Whitestone Primary	27
Ynystawe Primary	24
YGG Bryniago	31
YGG Bryn-y-Mor	37
YGG y Cwm	27
YGG Felindre	11
YGG Gellionnen	43
YGG Llwynderw	45
YGG Lon Las	71
YGG Pontybrenin	67
YGG Tan-y-Lan	14
YGG Tirdeunaw	59
YGG Y Login Fach	30

**DINAS A SIR ABERTAWE
YSGOLION GYFUN**

**NIFER DERBYN
2016/2017**

Birchgrove	163
Bishop Gore	232
Bishop Vaughan	203
Bishopston	218
Cefn Hengoed	134
Dylan Thomas	127
Gowerton	217
Morrison	216
Olchfa	275
Pentrehafod	200
Penyrheol	195
Pontarddulais	160
Y G Bryn Tawe	182
Y G Gwyr	144